

Rhaglen Achrededig DPP Technocamps ar gyfer Ysgolion ac Athrawon Cynradd (Cymru)

(Blwyddyn Academaidd 2021-2022)

Nod y sesiynau hyn yw gwella gwybodaeth athrawon am Gyfrifiadureg a Meddwl Cyfrifiadurol, cymhwyso'r sgiliau hyn yn yr ystafell ddosbarth ac yn strategol ar draws yr ysgol. Cysylltir y pynciau â'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol gan weithio ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad newydd y cwricwlwm newydd.

Trwy gymryd rhan yn y rhaglen hon, bydd athro yn derbyn cydnabyddiaeth Technocamps gan ddod yn **Athro Technocamps Ardystiedig**, a bydd yr ysgol yn ennill statws **Ysgol Technocamps Ardystiedig** ar lefel Efydd, Arian neu Aur. Bydd gwobrau yn cael eu rhoi yn seiliedig ar gwblhad y rhaglen DPP gan athrawon unigol. a nifer yr athrawon sy'n cwblhau'r rhaglen o fewn ysgol.

Bydd y sesiynau'n edrych ar y Fframwaith Cymhwysedd Digidol a sut i gymhwyso Meddwl Cyfrifiadol ar draws y cwricwlwm. Bydd sesiynau hyfforddi yn cael eu cynnal ar ddydd Mercher rhwng 3.30pm-5.30pm. Bydd lle i 20 o gyfranogwyr ym mhob sesiwn i sicrhau ansawdd y gefnogaeth a'r rhyngweithio gyda'r grŵp a staff Technocamps.

technocamps.com

info@technocamps.com

Gwobr Athro Technocamps Ardystiedig

Bydd athrawon yn derbyn tystysgrif a theitl Athro Technocamps Ardystiedig ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, neu cyn gynted ag y byddant yn cwblhau'r 10 sesiwn o DPP Technocamps. Mae'r teitl yn para am ddwy flynedd academaidd, o'r dyddiad cwblhau, gyda sesiynau atodol yn ystod yr ail flwyddyn.

Gwobr Ysgol Technocamps Ardystiedig

Dyrennir Gwobrau Efydd, Arian neu Aur i ysgolion, a fydd yn para dwy flynedd academaidd o'r dyddiad cwblhau cyn belled â bod yr holl staff sy'n cael eu hyfforddi yn mynychu sesiynau atodol (2 x sesiwn 2 awr) yn yr ail flwyddyn. Rhaid i'r ysgol ymrwymo i ddatblygiad digidol ac wedi ymgorffori hyn yn eu cynllun gwella.

Rhaglen Achrededig DPP Technocamps ar gyfer Ysgolion ac Athrawon Cynradd (Cymru)

(Blwyddyn Academaidd 2021-2022)

Dyma ofynion y gwobrau:

Efydd

30% o'r staff addysgu (ac eithrio Cynorthwyr Cymorth Dysgu) yn derbyn isafswm o 15 awr o hyfforddiant mewn blwyddyn academaidd (cyfwerth i 10 x sesiwn DPP 2 awr). Yr ysgol yn cynnal o leiaf 1 diwrnod o weithdai Technocamps bob hanner tymor.

Arian

50% o'r staff addysgu (ac eithrio Cynorthwyr Cymorth Dysgu) yn derbyn isafswm o 15 awr o hyfforddiant mewn blwyddyn academaidd (cyfwerth i 10 x sesiwn DPP 2 awr). Yr ysgol yn cynnal o leiaf 1 diwrnod o weithdai Technocamps bob hanner tymor.

Aur

75% o'r staff addysgu (ac eithrio Cynorthwyr Cymorth Dysgu) yn derbyn isafswm o 15 awr o hyfforddiant mewn blwyddyn academaidd (cyfwerth i 10 x sesiwn DPP 2 awr). Yr ysgol yn cynnal o leiaf 1 diwrnod o weithdai Technocamps bob hanner tymor.

Sesiynau ychwanegol

Mae sesiynau ychwanegol yn edrych ar galedwedd/meddalwedd penodol y gallai ysgolion fod wedi buddsoddi ynddynt. Mae'r sesiynau hyn yn ychwanegol at y rhaglen graidd:

- Crumble
- BBC micro:bits
- Arduino
- Spheros
- Lego WeDo
- Python (MAT)

Data sydd ei angen

Bydd angen y data canlynol ar Technocamps ar gyfer pob athro ac ysgol sy'n cofrestru ar y rhaglen:

- Enw'r Ysgol
- Cyfeiriad ebost yr athro sy'n cymryd rhan
- Cyfeiriad ebost y Pennaeth
- Nifer yr athrawon sy'n cael eu cyflogi gan yr ysgol

Rhaglen Achrededig DPP Technocamps ar gyfer Ysgolion ac Athrawon Cynradd (Cymru)

(Blwyddyn Academaidd 2021-2022)

Presenoldeb

Bydd athrawon yn cofrestru ar gyfer sesiynau trwy Eventbrite: [tc1.me/PrimaryCPD](https://www.eventbrite.com/e/primary-cpd-2021-2022-tickets-149848827072)

Gellir bwcio sesiynau mewn un tymor, neu ar draws y flwyddyn academaidd gyfan.

Gofynion:

- Rhaid i athro unigol fynychu pob un o'r 10 sesiwn er mwyn ennill Gwobr Athro Technocamps Ardystiedig.

- Gellir mynychu sesiynau mewn unrhyw drefn, cyn belled â bod y sesiynau sy'n rhaid eu cwblhau yn gyntaf yn cael eu bodloni (gweler y nodiadau uchod yn yr adran Sesiynau Craidd y Rhaglen).
- Rhaid archebu sesiynau 'cynyddol' sydd wedi'u paru mewn trefn, yn ddelfrydol yn yr un tymor.
- Yn ogystal, bydd fideos/gweithgareddau ychwanegol y gall athrawon eu cwblhau y tu allan i oriau byw'r rhaglen er mwyn gwella eu gwybodaeth a'u sgiliau.

Amserlen


Amserlen Blwyddyn Academaidd 2021-2022 | Dydd Mercher rhwng 3.30-5.30pm
(mae gwyliau hanner tymor wedi eu hystyried)

Tymor 1 Hydref	Tymor 2 Gwanwyn	Tymor 3 Haf	Sesiwn
15 Medi	12 Ionawr	4 Mai	Cyflwyniad i Feddwl Cyfrifiadurol (1/2)
22 Medi	19 Ionawr	11 Mai	Algorithmau a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (2/2)
29 Medi	26 Ionawr	18 Mai	Cyflwyniad i Raglennu Scratch (1/2)
6 Hydref	2 Chwefror	25 Mai	Rhaglennu Scratch Pellach (2/2)
13 Hydref	9 Chwefror	8 Mehefin	Scratch - Prosiect (1/1)
20 Hydref	16 Chwefror	15 Mehefin	Scratch - Prosiect (1/1)
3 Tachwedd	2 Mawrth	22 Mehefin	Scratch fel Offeryn Addysgu - Dadfygio (1/1)
10 Tachwedd	9 Mawrth	29 Mehefin	Scratch fel Offeryn Addysgu - Prosiectau Dosbarth (1/1)
17 Tachwedd	16 Mawrth	6 Gorffennaf	Meddwl Cyfrifiadurol Cymhwysol - Cynllunio ar gyfer Addysgu (1/2)
24 Tachwedd	23 Mawrth	13 Gorffennaf	Addysgu Meddwl Cyfrifiannol ar draws y Cwricwlwm (2/2)

Rhaglen Achrededig DPP Technocamps ar gyfer Ysgolion ac Athrawon Cynradd (Cymru)

(Blwyddyn Academaidd 2021-2022)

Llifsiart y Gymhwsyter



Am ragor o wybodaeth am y rhaglen hon, cysylltwch ag info@technocamps.com
Cofrestrwch ar tc1.me/PrimaryCPD